

Data Cyfrifiad 2011 ar gyfer Sir Gaerfyrddin – Aelwydydd un rhiant â phlant dibynnol

Aelwydydd un rhiant â phlant dibynnol	Sir Gaerfyrddin		Cymru		Cymru a Lloegr	
Pob rhiant unigol	5,939		97,524		1,662,205	
Â gwaith rhan amser	1,914	32.2%	32,694	33.5%	555,483	33.4%
Â gwaith llawn amser	1,662	28.0%	24,341	25.0%	432,214	26.0%
Nad yw'n gweithio	2,363	39.8%	40,489	41.5%	674,508	40.6%
Tadau unigol	728		10,132		161,876	
Â gwaith rhan amser	114	1.9%	1,468	14.5%	23,598	14.6%
Â gwaith llawn amser	373	6.3%	5,049	49.8%	85,127	52.6%
Nad yw'n gweithio	241	4.1%	3,615	35.7%	53,151	32.8%
Mamau unigol	5,211		87,392		1,500,329	
Â gwaith rhan amser	1,800	30.3%	31,226	35.7%	531,885	35.5%
Â gwaith llawn amser	1,289	21.7%	19,292	22.1%	347,087	23.1%
Nad yw'n gweithio	2,122	35.7%	36,874	42.2%	621,357	41.4%

Diffiniadau

Plant Dibynnol:

Mae plentyn dibynnol yn unigolyn rhwng 0 a 15 oed mewn aelwyd (p'un a yw hynny mewn teulu ai peidio) neu'n unigolyn rhwng 16 a 18 oed mewn addysg amser llawn sy'n byw mewn teulu gyda'i riant neu ei rieni. Nid yw'n cynnwys unrhyw blentyn sydd â phriod, partner neu blentyn yn byw yn yr aelwyd.

Gweithiwr Cyflogedig (yn gweithio):

Nodir bod unigolyn rhwng 16 a 74 oed yn gyflogedig (neu'n gweithio) os oedd, yn yr wythnos cyn y cyfrifiad, yn gwneud un awr o waith â thâl o leiaf, naill ai fel gweithiwr cyflogedig neu'n hunangyflogedig. Mae hyn yn cynnwys gwaith achlysurol neu dros dro, ar gynllun hyfforddi a noddir gan y Llywodraeth, yn gweithio am dâl neu'n ddi-dâl i'ch busnes eich hun neu i fusnes eich teulu, bod i ffwrdd o'r gwaith yn sâl, ar gyfnod mamolaeth, ar wyliau neu fod unigolyn wedi'i gadw dros dro o'i waith.

Gwaith Llawn Amser:

Diffinnir gwaith llawn amser fel gweithio 31 awr neu fwy'r wythnos. Mae hyn yn gymwys i nifer yr oriau y gwnaeth unigolyn rhwng 16 a 74 oed a oedd mewn cyflogaeth yn yr wythnos cyn y cyfrifiad weithio yn ei brif swydd, ac mae'n cynnwys goramser â thâl a goramser di-dâl.

Aelwyd:

Diffinnir aelwyd fel un person sy'n byw ar ei ben ei hun neu grŵp o bobl (nad ydynt o reidrwydd yn perthyn i'w gilydd) sy'n byw yn yr un cyfeiriad ac sy'n rhannu cyfleusterau coginio ac ystafell fyw neu lolfa neu le bwyta. Rhaid i aelwyd gynnwys o leiaf un person sy'n byw fel arfer yn y cyfeiriad. Nid yw grŵp o breswylwyr byrdymor sy'n cyd-fyw â'i gilydd na grŵp o bobl mewn cyfeiriad lle mai dim ond ymwelwyr sy'n aros yn cael eu cyfrif fel aelwyd.

Teulu Un Rhiant:

Mae teulu un rhiant yn cynnwys tad neu fam gyda'i blentyn (phlentyn) neu ei blant (phlant) lle nad oes gan y rhiant gymar, partner sifil o'r un rhyw na phartner yn y cartref ac nid oes gan y plentyn (plant) gymar, partner sifil o'r un rhyw na phlentyn yn yr aelwyd. Ystyrir bod neiniau neu deidiau unigol gyda'u hwyrion hefyd yn deulu un rhiant os nad oes unrhyw blant yn y genhedlaeth yn y canol yn yr aelwyd (noder y gall plant y nain neu'r taid hefyd fod yn bresennol os nad ydynt yn rhieni nac yn neiniau a theidiau'r genhedlaeth ieuengaf).

Cartref Un Rhiant:

Mae aelwyd un rhiant yn un sy'n cynnwys teulu un rhiant a neb arall. Caiff y diffiniad hwn ei ddefnyddio yn y rhan fwyaf o ganlyniadau o Gyfrifiad 2011. Mewn nifer fach o ganlyniadau diffinnir aelwyd un rhiant fel aelwyd sy'n cynnwys o leiaf un teulu un rhiant, ond nad yw'n cynnwys unrhyw barau priod, partneriaethau sifil o'r un rhyw na pharau sy'n cyd-fyw. Lle y defnyddir y diffiniad hwn nodir hynny'n glir.

Gwaith Rhan Amser:

Diffinnir gwaith rhan amser fel gweithio 30 awr neu lai'r wythnos. Mae hyn yn gymwys i nifer yr oriau y gwnaeth unigolyn rhwng 16 a 74 oed eu gweithio yn ystod yr wythnos cyn y cyfrifiad yn ei brif swydd, ac mae'n cynnwys goramser â thâl a di-dâl.